

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ym Mro Morgannwg yw Ysgol Stanwell ac mae'n aelod o gonsortiw Canolbarth y De. Mae gan yr ysgol 2,012 o ddysgwyr ar y gofrestr: Mae 4.9 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; mae gan 2.5 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 6.8 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol; ac mae 20 y cant yn cael eu hystyried yn ddysgwyr mwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yw 50.8 y cant yn fechgyn a 49.2 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae saith aelod o staff yn y tîm arwain ac mae gan yr ysgol 27 o arweinwyr canol hefyd. Mae 124 o athrawon yn Ysgol Stanwell, yn ogystal â 17 o gynorthwywyr addysgu.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £68,657 ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

### Hyfforddiant staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd/datblygu arweinyddiaeth

Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r grant i ddatblygu ymhellach rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus mewnol yr ysgol.

Wrth drafod y rhaglen, dywedodd Mrs R Connor, Pennaeth Cynorthwyol:

'Mae hon yn rhaglen sydd wedi ei hysgrifennu gan uwch arweinyddion yn yr ysgol a'i nod yw mynd i'r afael â'n hanghenion penodol mewn ymateb *i Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu, rheoli newid yn effeithiol, ymholi, ymarfer proffesiynol, gan hefyd ddatblygu diwylliant o hyfforddi ar yr un pryd. Nod y rhaglen hon oedd grymuso, hysbysu a galluogi ein holl staff addysgu i ddeall pob elfen ar *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* a gwneud cysylltiadau rhwng dysgu proffesiynol, addysgeg, ymarfer a newid.'

Defnyddiwyd y grant dysgu proffesiynol i ryddhau'r holl staff addysgu (mewn cylchoedd) i fynychu sesiynau dysgu proffesiynol wythnosol, pwrpasol. Yn rhan o'r sesiynau hyn, mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ar egwyddorion hyfforddi, ac maen nhw bellach yn hyfforddi eu cydweithwyr yn weithredol drwy brosiectau ymholi unigol. Mae datblygiad y rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i hwyluso gan dîm dysgu ac addysgu yr ysgol. Mae'r grant wedi ei ddefnyddio i ehangu'r tîm ac mae wedi creu swydd Cydlynedd Partneriaethau a dwy swydd Ymarferydd Arweiniol er mwyn cynyddu'r gallu i gyflawni'r model hwn. Defnyddiwyd y grant dysgu proffesiynol i wella sgiliau hwyluswyr ac maen nhw wedi mynychu nifer o gynadleddau a darpariaeth HMS i'w galluogi i gynllunio a chyflwyno'r model hwn yn effeithiol.

Dyrannwyd rhan o'r grant dysgu proffesiynol hefyd i ddatblygiad parhaus y staff o ran cynllunio a pharatoi ar gyfer cydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018). Mae hyn wedi cynnwys rhyddhau amser ar gyfer ymrwymadau arweiniol clwstwr ADY a hefyd hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff ADY (hyfforddiant Lefel 7 a MASEN).

## Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae ymrwymiad helaeth yr ysgol i'r model datblygiad proffesiynol parhaus mewnol wedi cael effaith enfawr ar lefel ddiwylliannol ond hefyd o ran datblygu ffocws seiliedig ar ymchwil ac ymholi ar draws pob maes yn yr ysgol. Mae cyd-ddealltwriaeth o addysgeg wedi galluogi staff i fynd ati i gynllunio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm drwy ddull sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae'r prosiectau ymholi wedi galluogi staff i roi cynnig ar ddulliau newydd o ran addysgeg a chynllunio'r cwricwlwm a myfyrio ar effaith newid o fewn ei ymarfer unigol.

Yn rhan o'r broses o ddatblygu diwylliant ymholi, ymholodd yr ysgol am effaith ei sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus gyda'r staff, a defnyddiwyd yr ymatebion gwerthuso i ddylanwadu ar gynllunio cylchoedd pellach. Roedd gwerthusiadau o sesiynau 2018–2019 yn dangos bod y mwyafrif llethol o aelodau'r staff o'r farn bod y diwrnod hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn ddefnyddiol. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi llwyddo i gael gwell dealltwriaeth o'r cwricwlwm newydd a/neu wedi canfod bod *Principles of Instruction* gan *Rosenshine* yn ddefnyddiol fel fframwaith ar gyfer gwella dysgu ac addysgu.

Bu naid nodedig hefyd o ran dealltwriaeth o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth, o 54 y cant yn y flwyddyn flaenorol, i 87 y cant.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae'r dysgwyr wedi bod yn rhan o'r dull gweithredu hwn ac wedi bod wrth wraidd yr holl brosiectau ymholi. Mae llawer o'r prosiectau ymholi a gwblhawyd gan staff yn dangos effeithiau cadarnhaol ar safonau yn enwedig o ran caffael gwybodaeth a therminoleg sy'n benodol i bwnc.

Mae llais y disgybl wedi bod yn offeryn ymholi hanfodol ac mae'r disgyblion wedi myfyrto ar ddull wythnosau thematig yr ysgol ac maen nhw hefyd wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio ymatebion cychwynnol i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws pob maes dysgu a phrofiad a'r dibenion craidd ym mhob sesiwn sgiliau meddwl Cyfnod Allweddol 3.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol**

Mae hyn yn esblygu'n barhaus ac mae'r ysgol yn myfyrto'n barhaus ar ei chanfyddiadau ymholi ei hun er mwyn datblygu datblygiad proffesiynol parhaus effeithiol a phwrpasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion y staff. Mae'r staff wedi datblygu eu dull o gynllunio ar gyfer wythnosau thematig yn unol â llais y disgybl ac maen nhw hefyd wedi elwa ar ddatblygu dull cam wrth gam o ymholi. Maen nhw bellach yn agored i ddatblygu eu dull gweithredu yn unol â dulliau mwy academiaidd o astudio. Mae'r ysgol wedi dysgu gwerth hyfforddi wrth ddatblygu dull ar gyfer datblygu proffesiynol a bod hyn yn sail i ddatblygiad effeithiol o ddysgu proffesiynol ar bob lefel.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill**

Mae Stanwell wedi datblygu ymagwedd gydweithredol tuag at y gwaith hwn ac mae'n rhannu arfer yn y maes hwn yn gyson. Er bod yr ysgol yn awyddus iawn i ddefnyddio ei thaith dysgu proffesiynol ei hunan fel canllaw, maen nhw'n tynnu sylw yn barhaus at y ffaith bod gwerth dysgu proffesiynol yn dod o nodi dull unigryw ar gyfer pob ysgol a phob demograffeg, drwy ddull ymholi a hyfforddi effeithiol.

## **Camau nesaf**

Mae ysgol Stanwell yn bwriadu gwneud y canlynol.

- Parhau gyda'i model datblygiad proffesiynol parhaus mewnol.
- Y flwyddyn nesaf, bydd yr ysgol yn cyflwyno modelau hyfforddi ychwanegol, gan ddatblygu a myfyrto ar ymholiad a lansio cylch pedwar y prosiectau ymholi ar gyfer pob aelod o staff.
- Defnyddio sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus i archwilio swyddogaeth cynllun datblygu unigol o fewn addysgu ymatebol a hefyd i egluro ymhellach penderfyniadau a chynlluniau o ran y cwricwlwm.
- Mapio cysylltiadau ysgol gyfan organig yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf, pan fydd gan bob maes dysgu a phrofiad ddull mwy terfynol o lunio cwricwlwm.